

YN WYNEB HAUL

LLYGAD GOLEUNI



GORSEDD BEIRDD YNYS PRYDAIN

Adroddiad Blynyddol Bwrdd yr Orsedd 2018



Cynhaliwyd Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Dyffryn Conwy 2019 ar lawnt Bodlondeb o fewn golwg i furiau tref Conwy ddydd Sadwrn 7 Gorffennaf, pryd y cyhoeddwyd mai'r Prifardd Myrddin ap Dafydd fydd yr Archdderwydd nesaf.

Diolch i bawb a wnaeth yr achlysur yn un mor llwyddiannus a chofiadwy.

CYNHELIR CYFARFOD CYFFREDINOL BLYNYDDOL YR ORSEDD
Ym Mhabell y Cymdeithasau 1 am 10.00, ddydd Iau 9 Awst 2019

CYFARFODYDD BWRDD YR ORSEDD 2018

Cyfarfu'r Bwrdd dair gwaith yn ystod y flwyddyn: 14 Hydref 2017 a 21 Ebrill 2018 yn Aberystwyth, a 7 Awst 2018 yn Eisteddfod Caerdydd. Ymhlith y materion a drafodwyd oedd:

- Niferoedd ac enwau'r rhai a enwebwyd i'w hanrhydeddu yn Eisteddfod Caerdydd 2018, a chyfrifoldeb Panel yr Urddau i sicrhau safon deilwng.
- Bwriad cyfeillion yng Nghaerfyrddin i gynnal digwyddiad arbennig i ddathlu dau canmlwyddiant 'Eisteddfod Iolo', 1819.
- Yr addasiadau y bydd angen eu gwneud yng nghyd-destun seremoniau Eisteddfod Caerdydd oherwydd 'daearyddiaeth' fewnol Canolfan y Mileniwm.
- Y bwriad i osod gwybodaeth gryno am Orseddogion ar Wikipedia.
- Penderfyniad Prydwen Elfed Owens ymdeol fel Ymgynghorydd Ddawns wedi 20 mlynedd o wasanaeth, a'r angen i benodi ymgynghorydd newydd ar gyfer y gogledd.

Ethol Archdderwydd ar gyfer y cyfnod 2019–22

Etholwyd y Prifardd Myrddin ap Dafydd yn ddiwrthwynebiad.

Ethol 4 aelod i wasanaethau ar Fwrdd yr Orsedd am y cyfnod 2018–21.

Etholwyd Y Prifardd Awen Gwyrfaï, Y Priflenor Eurig, Y Prifardd Hywel Clynog a'r Prifardd Rhys Iorwerth yn ddiwrthwynebiad.

Swyddogion yr Orsedd

Archdderwydd: Y Prifardd Geraint Llifon
Archdderwydd Etholedig: Y Prifardd Myrddin ap Dafydd
Dirprwy Archdderwydd: Y Prifardd Christine
Cyn-Archdderwyddon: Y Priflenor Robyn Llŷn;
Y Prifeirdd: Jim Parc Nest, Meirion, John Gwilym
Cofiadur: Y Prifardd Christine
Arwyddfardd: Dyfrig ab Ifor
Trysorydd: Eric Wern Fawr
Ysgrifennydd Aelodaeth: Huw Tomos
Swyddog Cyfraith: Y Priflenor Robyn Llŷn
Ceidwad y Cledd: Robin o Fôn
Trefnydd yr Arholiadau: Gwyn o Arfon
Trefnydd Cerddoriaeth: Y Priflenor Cefin
Arolygydd y Gwisgoedd: Ela Cerrigellgwm
Swyddog Cysylltiadau Celtaidd: Hywel

Bwrdd yr Orsedd

Y swyddogion uchod ynghyd â'r aelodau a ganlyn:
Y Priflenor Annes, Y Prifardd Awen Gwyrfaï, Dorothy Bwlch-y-Ffordd, Gwenda Pen Bont, Gwyn Treferythyr, Madge, Y Prifardd Tafwysfardd, ynghyd â'r tri aelod newydd: Y Priflenor Eurig, Y Prifardd Hywel Clynog a'r Prifardd Rhys Iorwerth.

Y Prifardd Christine

Cofiadur



Yr Archdderwydd Geraint Llifon gyda'r Prifardd Myrddin ap Dafydd yng Nghonwy

ADRODDIAD YR ARWYDDFARDD 2018

Rhaid cyfaddef fod eleni wedi bod cryn dipyn yn wahanol i flwyddyn ‘draddodiadol’ Arwyddfardd. Mae hyn wrth gwrs yn deillio o’r ffaith fod yr Eisteddfod wedi newid eleni o fod yn un ar faes glas i un wedi ei chanoli o amgylch Canolfan y Mileniwm yng Nghaerdydd.

Y prif newid yn hyn oll yw y bydd ein seremonïau ar lwyfan theatr fodern ac nid oes cyfleusterau i bawb wisgo yng nghefn y llwyfan. O’r herwydd bu’n rhaid addasu’n harferion yn sylweddol, gan gynnwys y modd y byddwn yn gorymdeithio, gan nad yw theatr wedi ei chynllunio i gael mynediad rhwydd o’r llawr i’r llwyfan. Mae defnyddio hen adeilad ‘Profiad Dr Who’ fel ystafelloedd gwisgo wedi ein gorfodi i amserlennu’n wahanol oherwydd y pellter rhwng y llwyfan a’r adeilad hwnnw. Un fantais werthfawr o ddefnyddio’r ‘Fedydgfa’ ydi y gallir cynnal dwy seremoni’r Orsedd Agored yno petai’r boreau’n wlyb. Ar yr olwg gyntaf, mae hyn yn gaffaeliad mawr, ond o feddwl eto gallai’r pellter rhwng y ddau greu problemau gwahanol petai’r prynhawniau’n wlyb! Y mae lleoliad Cylch yr Orsedd o fewn Plas Roald Dahl ar gyfer y Seremonïau Agored yn elfen arall sy’n gorfodi newid eleni gan na ellid gadael y ‘Meini’ yn eu lle trwy gydol yr wythnos.

Gyda chymorth staff yr Eisteddfod mae cryn waith wedi bod i geisio darganfod a deall holl oblygiadau’r newidiadau yma a sut i ymateb yn effeithiol iddynt. Mae’r gwaith yn parhau, a hyd yn oed wrth lunio’r nodyn yma mae’r glo mân yn dal i gael ei hidlo i geisio sicrhau llwyddiant ein Seremonïau.

Ar nodyn gwahanol, ymddengys fod archebu ar-lein yn dod yn fwy poblogaidd ymysg ein aelodau, gydag oddeutu 60% yn gweithredu felly eleni. Mae ambell un yn dal i geisio’n ddygn – ychydig yn methu ond eraill yn cael gweledigaeth wrth gael cymorth llais ar ben arall y ffôn wrth wneud! Siomedig unwaith eto fodd bynnag oedd nifer yr aelodau archebodd wisg ym Môn ond na welwyd hwy yn y Seremonïau. Mi wn yn iawn fod amgylchiadau’n gallu newid ar fyr rybudd i rwystro presenoldeb, ond rhywsut anodd credu fod hynny wedi digwydd i 385 o unigolion! Gwir dristwch hyn yw’r gwaith ofer a orfodwyd ar Ela a’i thîm wrth baratoi a labelu pob gwisg unigol. Gair i bawb call sy’n gwrando neu’n darllen hwn ogydd.

Eleni, fel sy’n hysbys i bawb, bydd ein Diwrnod Cymdeithasol yn ymweld â’r Bathdy Brenhinol yn Llantrisant ar 29 Medi, gyda chinio ym mwyty enwog Dudley Newbury. Mae lle ar ôl o hyd ar y funud olaf fel hyn petai rhywun â diddordeb – dewch ataf am air yn ystod yr Ŵyl.

Cyn cloi, rhaid yw nodi inni gael Gŵyl Gyhoeddi arbennig yn nhref Conwy ychydig wythnosau’n ôl. Mae fy niolch yn fawr iawn i bawb fu’n rhan o’r tîm mawr gweithgar hwnnw a sicrhodd y fath llwyddiant. Fe dyfodd



y belen fechan o unigolion ar y cychwyn yn un a fyddai wedi bod ymhell yn rhy fawr i deithio drwy’r bwa ym mur caerog Conwy – arwydd godidog, ddyciwn i, am Eisteddfod wych yn Llanrwst y flwyddyn nesaf. Teg nodi hefyd fod llwyddiant ysgubol y diwrnod wedi profi pwysigrwydd a gallu’r briodas hapus rhwng yr Orsedd a’r Eisteddfod i godi ymwybyddiaeth am gyfoeth ein diwylliant nid yn unig ymhlith Cymry Cymraeg ond hefyd ymhlith y di-Gymraeg y mae mawr angen eu hennill i’n hochr.

*Dyfrig ab Ifor
Arwyddfardd*

Cyhoeddi Eisteddfod Caerdydd

Bu gorymdaith a seremoni hwylus iawn mewn tywydd braf yn Ninas Caerdydd. Cawsom ddefnyddio ystafelloedd yn yr Amgueddfa i baratoi. Roedd y staff yn hynod o glên ond oherwydd gofynion diogelwch, oedd wrth reswm yn hanfodol mewn adeilad o'r fath, nid oedd y trefniadau gwisgo y rhai mwyaf hwylus. Fodd bynnag fe ddaethom i drefn gyda chymorth Erin a Siwan. Gweithiodd y ddwy'n ddiflino a threfnus dros ben gyda'r Gorseddogion mewn gofod a stafelloedd digon anodd. Erin fydd yn trefnu'r tîm fydd yn helpu yn yr Eisteddfod eleni ac rwy'n hollol hyderus yn ei gallu – yn wir, rwy'n edrych ymlaen at gydweithio â hi eto.

Eisteddfod Ynys Môn

Unwaith eto cawsom Eisteddfod lwyddiannus a threfnus iawn ym Môn. Er bod cryn bryder bore Llun oherwydd y tywydd garw prynhawn a nos Sul, cynhaliwyd y Seremoni Urddo yn y Cylch ar y maes. Trefnodd staff yr Eisteddfod fod tracfyrddau wedi eu gosod a daeth pawb yn ôl o'r Cylch yn lân a thaclus.

Bore Gwener bu raid cynnal y Seremoni Urddo yn y Neuadd Ddawns. Bu cryn drafod rhwng swyddogion yr Orsedd a swyddogion yr Eisteddfod pnawn lau ar y gwahanol opsiynau pe bai'f tywydd yn wlyb iawn fore Gwener, fel yr oedd y darogan. Wrth lwc cawsom hindda i bawb gerdded o gefn y Pafiliwn i'r Neuadd yn eu gwisgoedd. Roedd hyn llawer haws na pe bai rhaid newid yn y Neuadd fel y buom yn trafod ar un pwynt. Rwy'n teimlo trueni dros y gynulleidfa na chafodd fynediad oherwydd prinder lle. Tybed a oes modd cael gwell trefniant wrth gefn yn y dyfodol?

Rhaid i mi ganmol merched Môn a fu'n helpu ar hyd yr wythnos. Criw hwyliog a chyfeillgar iawn. Daethant i gynorthwyo am ddwy awr ar fyr-rybydd ddydd Mawrth a dydd lau er mwyn hwyluso'r gwaith ar ddiwrnodau'r seremonïau er eu bod yn brysur gyda llawer o weithgareddau eraill a chyngherddau'r Eisteddfod. Gweithiodd hyn yn dda ac rwyf wedi gofyn i Erin a fydd y drefn hon yn bosib yng Nghaerdydd hefyd.



Gwisgodd y Cyn-Archdderwyddon eu penwisgoedd a'u blaenlieiniau newydd a chafwyd ymateb ffafriol ar y cyfan. Yng Nghyfarfod Ebrill o'r Bwrdd ystyriwyd a oedd angen unrhyw addasu pellach i'r cynllun, ond roedd y Bwrdd yn unfarn o blaid cadw'r cynllun newydd fel y mae.

Ar ôl yr Eisteddfod bu Marian a finau yn Llanybydder yn gwneud trefn ar y gwisgoedd wedi iddynt ddod yn ôl o'r golchdy. Rwyf wedi ymgeleddu rhai oedd angen ac wedi gwneud rhai llaesach. Mae pethau'n gwella'n ara deg ond mae tipyn o waith eto cyn bydd pawb yn derbyn gwisg sy'n ffitio'n iawn! Mae angen cwtogi llewys rhai o'r meintiau byrraf ac angen coleri mwy ar eraill. Rwy'n gofyn i chi fod yn amyneddgar – fe ddown i drefn.

Wrth ysgrifennu hyn rwy'n edrych ymlaen at Eisteddfod wahanol yng Nghaerdydd ac yn diolch unwaith eto i bawb am eich cefnogaeth gydol y flwyddyn.

*Ela Cerrigellgwm
Arolygydd y Gwisgoedd*

ADRODDIAD SWYDDOG Y CYSYLLTIADAU CELTAIDD 2018

Trefnwyd y byddai cynrychiolwyr yr Orsedd yn mynd i wyliau'r Celtaidd fel a ganlyn yn 2018:

CERNYW:	Hywel
IWERDDON:	Yr Archdderwydd Geraint LLifon
LLYDAW:	Y Cofiadur Christine
YNYS MANAW:	Dim trefniadau
YR ALBAN:	Dyfrig ab Ifor
Y WLADFA:	Dim trefniadau

Ceir adroddiadau gan y rhai a fu'n ymweliad â'r gwyliau Celtaidd eraill yn 2017 isod.

Hywel

Swyddog y Cysylltiadau Celtaidd

Ymweld â'r Mod, 13-14 Hydref 2017

Roedd hi'n siwrne o fil o filltiroedd 'nôl a mlaen rhwng Caerdydd a Fort William. Ond lliniarwyd dwy daith hir a chymhleth y Suzuki coch (oherwydd traffig trwm a Storm Ophelia!) wrth aros dros nos ddwywaith yng ngwesty hyfryd Tebay, ar draffordd yr M6, ar gyrion Ardal y Llynnoedd yng ngogledd Lloegr. Taith droellog wedyn drwy olygfeydd godidog Uchldir yr Alban, gan gynnwys Glen Coe, safle'r gyflafan enwog. A chyrraedd ardal Lochaber – a thref Fort William (An Gearasdan) – wrth droed Ben Nevis, yn ddiogel, gan edrych ymlaen at egwyl ddiwylliannol a chymdeithasol arbennig.

Cawsom ychydig o anlwc ar ôl cyrraedd (ond beth oedd i'w ddisgwyl gan ei bod hi'n ddydd Gwener y 13eg?) gan nad oedd neb swyddogol i'n croesawu, ac roedd peth ansicrwydd parthed amserlen a lleoliad y



Jim Parc Nest a Manon Rhys gyda John Morrison (Prif Weithredwr y Mod)

derbyniad agoriadol. Hefyd, roedd gofyn inni chwilio am ein swper ein hunain yn hwyr y noson gyntaf honno. Ond cawsom fudd o'r derbyniad a noddwyd gan gwmni llongau cario ceir Caledonian Macbrayne, yn enwedig wrth gwrdd ag amryw o siaradwyr a chefnogwyr yr iaith Aeleg ynghyd â gwleidyddion blaenllaw – yn eu plith John Swinney, y dirprwy brif weinidog. Mae cefnogaeth llywodraeth yr Alban i'r diwylliant Aeleg ar gynydd. Gyda'r hwyr, cynhwysai'r cyngerdd agoriadol yng Nghanolfan Nevis amryw o eitemau llefaru a cherddorol safonol gan fuddugwyr cystadlaethau'r dydd.

Brynhawn trannoeth, cawsom gyfle i ymweld ag ysgol gynradd Aeleg newydd sbon, lawn adnoddau a chyfarpar ardderchog, ym mhentref Caol, ar lan Loch Linnhe.

Rhagor o gymdeithasu a gwranddo ar gystadlaethau weddill y prynhawn a'r nos, cyn mwynhau swper ardderchog a mynd i gyngerdd mawr y ffdlwyr gyda'r hwyr.

Herio corwynt Ophelia ar y ffordd 'nol i Gymru – a chyrraedd wedi mwynhau, ac wedi dysgu tipyn – a chwedd â sawl Donald, ond nid THE Donald, diolch byth! Diolch i Fwrdd yr Orsedd am y cyfle gwerthfawr hwn i ymweld â'r Mod.

Jim Parc Nest a Manon Rhys

Ymweld ag *An tOireachtas*, 1-4 Tachwedd 2017

Profiad i'w drysori i'r ddau ohonom oedd cael y cyfle i gynrychioli Gorsedd y Beirdd yn *An tOireachtas* eleni – a hynny am y tro cyntaf erioed yn ein hanes. Cynhaliwyd yr ŵyl rhwng 1 a 4 Tachwedd mewn dau westy cyfochrog yn Cill Airne (sef y Brehon a'r Gleneagle) a braf iawn oedd cael bod yn rhan o'r bwrlwm a oedd yn llifo ar hyd y coridorau ac yn y neuaddau ymgynnull wrth i'r Gwyddelod (ac eraill) dyrru i dde orllewin yr Ynys Werdd i ddathlu amrywiol agweddau ar eu diwylliant. Lle bynnag yr oeddem yn troi, roedd yna rywun naill ai'n canu neu'n dawnsio neu'n canu offeryn cerdd – a'r cyfan mewn awyrgylch gwerinol heintus, cwbl nodweddiadol o'r ysbryd Gwyddelig.

Cafodd y ddau ohonom – ynghyd â chynrychiolwyr *Am Mòd* (Yr Alban) ac *Yn Chruinnaght* (Ynys Manaw) – groeso gwirioneddol dwymgalon gan drefnyddion yr ŵyl (yn arbennig Bláthnaid Ó Brádaigh, sy'n ymwelydd cyson â'r Eisteddfod) a chyfle i rannu profiadau gyda'n gilydd mewn perthynas â'r diwylliannau a'r ieithoedd Celtaidd. Er mor amheuthun oedd cael ein trochi yn yr Wyddeleg am bedwar diwrnod, rhaid cyfaddef i ni werthfawrogi cael mwy nag un cyfarchiad yn Gymraeg yn ystod ein harhosiad – gan Gymry Cymraeg sydd wedi ymgartrefu yn Iwerddon a chan rai Gwyddelod sydd wedi dysgu Cymraeg dros y blynyddoedd.

Yn ystod y pedwar diwrnod, cawsom brofi o'r amrywiaeth o gystadlaethau a 'chyfarfodydd' eraill sy'n rhan mor unigryw o wead a naw *An tOireachtas* – a hynod braf a chalonogol oedd gweld cynifer o blant a phobl ifanc yn cymryd rhan mor frwdfrydig yn y gweithgareddau. Ac er nad oeddem yn gallu deall popeth a oedd yn cael ei lefaru neu ei ganu yn yr Wyddeleg, buan iawn y daethom i werthfawrogi ysbryd y cystadlu ac ymuno yn yr hwyl! Profiad bythgofiadwy; diolch am y cyfle i gael mynd draw!

Gwyn ac Alwena Lewis

Ymweld â *Gorsedh Kernow*, 1–2 Medi 2017

Cynhaliwyd *Gorsedh Kernow* 2017 yn Launceston (ffurf ar yr enw Llansteffan), tref farchnad bert a leolir rhwng Rhostiroedd Dart a Bodmin ac a fu ar un adeg yn 'brifddinas' Cernyw.

Fel yn achos Cymru, cipiwyd llawer o dir Cernyw gan y Normaniaid o ddiwedd yr 11eg ganrif ymlaen, ac ar lawnt adfeilion castell Normanaidd Launceston y cynhaliwyd yr Orsedd y tro hwn, ar bryn hawn heulog braf. Gorymdeithiodd cannoedd o Orseddogion trwy'r dref o'r man ymgynnull i'r Castell, gan dynnu sylw'r llu o ymwelwyr ar y ffordd. Yn wahanol i'n Gorsedd ni, glas yw lliw gwisg pob un o aelodau *Gorsedh Kernow*, ac roedd gweld y môr mawr hwn o lesni'n llifo i mewn ac yn llenwi'r gofod rhwng waliau'r hen gastell Normanaidd yn rhoi ymdeimlad o 'hawlio'n ôl' hen diriogaeth goll.

Ar ôl y seremoni, cawsom ymuno â'r *Bardh Meur* a'r Gorseddogion eraill mewn te traddodiadol – a'r prif ddanteithfwyd? Ie, wrth gwrs, pasteiod Cernyw yn cael eu gweini yn y dull traddodiadol – mewn bag papur (a'r cwrtseisi arferol yw eu bwyta'n syth o'r bag!)

Diolch i Fwrdd yr Orsedd am y fraint o gael cynrychioli Gorsedd y Beirdd yng Nghernyw y tro hwn, a llawer o ddiolch i Merv Davey, *Bardh Meur Kernow*, a phawb a fu mor gynnes eu croeso i ni yn Llansteffan y Cernywiad.

Christine a Wyn James



Christine a Wyn James gyda Jack, cludwr baner Cymru

Ymweliad â Gorsedd Digor, 16 Gorffennaf 2017

Cymru a Chernyw yw'r unig ddwy wlad sy'n cael eu gwahodd i Lydaw ar gyfer eu seremoni yng nghylch yr Orsedd sy'n cael ei chynnal mewn llwyn derw allan yn y wlad ger Brasparts. Cefais sioc neu ddwy yn ystod y seremoni wrth i mi orfod gwneud a dweud pethau'n gwbl ddirybudd, ond roedd yn weddol rwydd dilyn beth oedd yn digwydd gan fod eu seremoni nhw'n ddigon tebyg i Gylch yr Orsedd gyda ni, ond heb y Ddawns Flodau. Cefais groeso arbennig o gynnes acw, ac rwy'n teimlo fy mod i wedi dysgu llawer er mwyn medru rhoi eraill ar ben ffordd wrth iddynt fynd i'n cynrychioli ni yng Ngorsedd Digor yn y dyfodol.

Hywel Wyn Edwards



Hywel gyda Bardd Mawr Llydaw a Mick Paynter o Gernyw

ADRODDIAD TREFNYDD YR ARHOLIADAU 2018

- Llwyddodd y Maes Astudiaeth newydd ar gyfer 2018-2019-2020 i ddenu cynifer â phump ymgeisydd i roi cynnig ar yr arholiadau eleni, gan gwmpasu'r meysydd a ganlyn:
 - Arholiad Cyntaf Cyfansawdd: Barddoniaeth, Iaith, Rhyddiaith (tri ymgeisydd)
 - Arholiad Iaith 2 (dau ymgeisydd)
 - Arholiad Cerddoriaeth 1 (un ymgeisydd)
 - Arholiad Cerddoriaeth 2 (un ymgeisydd)
- Diolchaf i Banel yr Arholwyr am fynd ati i lunio'r Maes Astudiaeth diwygiedig, gan obeithio y bydd y gofynion yn llwyddo i ddenu cnwd da o ymgeiswyr dros y ddwy flynedd nesaf.
- Unwaith eto eleni, mae fy nyled i Nan Lloyd Williams (Nan Llwyd) am fod yn barod i drefnu lleoliad ar gyfer yr arholiadau yn Aberystwyth ac am oruchwylio ac arolygu'r ymgeiswyr ar y diwrnod.
- Diolch i'r arholwyr perthnasol am fynd ati i osod a marcio'r papurau arholiad eleni (Y Cyn-Archdderwydd John Gwilym, Y Prifardd Robot, Y Prif Lenor Cefin, Cerddores Dwyfor, Gari Niclas, ac Ifor ap Gwilym).
- Mynegaf fy ngwerthfawrogiad o gydweithrediad a chymorth parod fy nghyd-swyddogion yng Ngorsedd, ynghyd â staff canolog yr Eisteddfod, yn y gwaith o weinyddu a chyflawni'r dyletswyddau sy'n gysylltiedig ag aelodaeth o'r Orsedd trwy arholiad.
- Diolch yn arbennig hefyd i'r Arwyddfardd a'r Cofiadur am hwyluso fy ngwaith o baratoi'r tystysgrifau aelodaeth ar gyfer y seremonïau boreol. Diolch hefyd i'r disteiniad am eu cydweithrediad wrth oruchwylio cyflwyno'r tystysgrifau yn y seremonïau urddo ar y boreau Llun a Gwener.
- Yn olaf, hoffwn annog pawb ohonom i wneud ein gorau i hyrwyddo'r arholiadau ymhlith ein teuluoedd a'n ffrindiau fel llwybr iddynt ei ystyried ar gyfer aelodaeth o Orsedd y Beirdd. Cofiwch fod rhagor o wybodaeth ar wefan yr Eisteddfod: <https://eisteddfod.cymru/arholiadau>

Gwyn o Arfon

Trefnydd yr Arholiadau

CYFARFOD CYMDEITHASOL YR ORSEDD 2017 *

Roedd cyfuno Cyfarfod Cymdeithasol yr Orsedd â Gŵyl y Gadair Ddu, Penbedw yn ystod y penwythnos 8–10 Medi 2017 yn syniad ardderchog ac yn llwyddiant ysgubol. Ddydd Gwener, 8 Medi fe'n tywyswyd ar daith hanes o amgylch Lerpwl gan y Parchedig Athro D. Ben Rees, a braf oedd dysgu am gyfraniad, llwyddiant a mentergarwch Cymry Lerpwl yn ystod y Rhyfel Byd Cyntaf ac wedi hynny. Yn yr hwyr mwynhawyd pryd o fwyd blasus yng ngwesty'r Shankly, Lerpwl, lle y bu rhai ohonom yn sefyll dros y Sul – diolch i Deithiau Elfyn Thomas am wneud y trefniadau.

Ddydd Sadwrn, 9 Medi, cafwyd diwrnod addysgiadol a chofiadwy yng Ngŵyl y Gadair Ddu a gynhaliwyd yn Wirral Hospitals' School, ryw daflid carreg o leoliad Eisteddfod Genedlaethol 1917 ym Mharc Penbedw. Mwynhawyd lluo o weithgareddau amrywiol, gan gynnwys pedair darlith. Y Parchedig Athro D. Ben Rees a draddododd y gyntaf, ar 'Gymry Penbedw ac Eisteddfod y Gadair Ddu', a'i ddilyn gan yr Athro Robert Lee ar 'Y Cysylltiad Belgaid', gan sôn am y cerflunydd medrus Eugeen Vanfleteren, ffoadur o ddinas Mechelen, Gwlad Belg, a greodd y Gadair Ddu er mwyn diolch i Gymry Lerpwl am eu croeso iddo. Traethu ar farddoniaeth a chefnidir Hedd Wyn a wnaeth yr Athro Peredur Lynch yn y drydedd ddarlith, gan ddadlennu'r gwahaniaeth rhwng yr Hedd Wyn 'go-iawn' a'r Hedd Wyn yr ydym yn cofio amdano, a Dr Huw Edwards, cyflwynydd newyddion y BBC a draddododd, yn ei ffordd ddihafal ei hun, ddarlith olaf y dydd ar David Lloyd George.

Brynhawn Sadwrn cynhaliwyd seremoni gadeirio yng ngofal yr Archdderwydd Geraint Llifton. Braf oedd gweld Martin Huws o Gaerdydd yn codi ar ei draed i ennill cadair hardd, rhodd Cymdeithas Hedd Wyn yn



Fflandrys, am ei gerdd ar y testun 'Hedd Wyn'. Coronwyd dau berson ifanc dan 19 mlwydd oed hefyd yn ystod y prynhawn: Brodie Powell o Benbedw am gerdd Saesneg, a Nest Jenkins o Ledrod, Ceredigion am gerdd Gymraeg. Yn ystod y prynhawn hefyd dadorchuddiwyd cofeb ym Mharc Penbedw i Hedd Wyn a'r milwyr o Gymru a Phenbedw a gollodd eu bywydau yn y Rhyfel Byd Cyntaf, mewn seremoni deimladwy ac urddasol a lywiwyd gan Dr Huw Edwards.

Yn yr hwyr, cawson ein difyrru gan Gôr Ieuentid Ynys Môn dan arweiniad Mari Lloyd Pritchard, Côr Rygbi Gogledd Cymru dan arweiniad Geraint Roberts o Brestatyn, y tenor ifanc Huw Ynyr o Rydymain a'r telynor dawnus Dylan Cernyw.

Fore Sul cynhaliwyd oedfa yng Nghapel Seion, Laird Street, Penbedw ac yn y prynhawn bu Cymanfa Ganu yn yr un lleoliad, dan arweiniad Dr Alwyn Humphreys a fu'n organydd yno pan oedd yn ifanc. Cafwyd datganiadau cerddorol hefyd gan Gôr Meibion Orffiwys Rhosllannerchrugog dan arweiniad Eifion Wyn Jones. Dyna glo bendigedig i benwythnos o weithgareddau. Diolch i'r Parchedig Athro D. Ben Rees, Pwyllgor y Gadair Ddu a Phwyllgor Etifeddiaeth Glannau Mersi am gynnal y digwyddiad ac am ein croesawu i'w plith, ac i Dyfrig ab Ifor am y trefniadau cychwynnol.

Carol Thomas (Carol o'r Mwdwl)

*Crynodeb o adroddiad llawn sydd i'w weld ar: <http://www.gorsedd.cymru/newyddion>